

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	24.05.22
Pwnc / Subject:	Categoriâu cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r cynigion. Mae'n bwysig ei bod yn ofynnol i'r gweithlu addysg cyflogedig cyfan gofrestru. Mae sawl mantais i hyn, yr ydym yn eu hamlygu isod, gan gynnwys:

- y gallu i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn briodol i ymarfer
- gwybodaeth gyffredinol well am y gweithlu i gefnogi cynllunio
- proffesiynoldeb gwell

Nid ydym yn credu y dylai fod yn ofynnol i wirfoddolwyr gofrestru, ond gallai fod yn briodol ystyried categori cofrestru ar wahân ar gyfer hyfforddeion sy'n dilyn cymwysterau proffesiynol ar hyn o bryd tra'n gweithio.

Rydym wedi nodi ychydig o feysydd a allai helpu cryfhau'r cynigion, sef:

- Mae angen sicrhau nad yw cost cofrestru yn rhwystr rhag recriwtio staff mewn rhai sectorau sydd dim ond yn gweithio contractau ffracsïynol bach sydd gyfwerth ag ychydig o oriau'r wythnos.
- Mae angen ystyried sut i drin staff sy'n cyflawni mwy nag un rôl broffesiynol – er enghraifft, athrawon mewn ysgol annibynnol sydd hefyd yn weithwyr gofal preswyl. Mae angen sicrhau cofrestriad â phob corff proffesiynol perthnasol os cyflawnir mwy nag un rôl, ond nad yw hyn yn rhwystr rhag recriwtio o ganlyniad i ofynion o ran costau / gweinyddu.

Dylid ystyried y canllawiau a'r cymorth sy'n un o fanteision cofrestriad proffesiynol i sicrhau cysondeb gwell ar draws sectorau.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Beth ydych chi'n meddwl am ein cynigion i rai staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)?

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y dylid ehangu cofrestru i gynnwys rhai aelodau staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Fel yr amlinellir yn ein hymateb i'r rheoliadau a chanllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol: galw am dystiolaeth, (WG44010), credwn y bydd gofyn i staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda CGA yn darparu cam ychwanegol tuag at ddiogelu dysgwyr. Byddai gofyniad cofrestru yn sicrhau bod safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon a phobl sy'n cefnogi addysgu a dysgu mewn ysgolion annibynnol, yn cael eu cynnal a'u gwella. Byddai hyn yn galluogi CGA i ymchwilio i, a chlywed, honiadau am ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu droseddau perthnasol a allai

godi amheuon ynghylch priodoldeb ymarferwr cofrestredig i ymarfer. Mae'n bwysig fod cydraddoldeb ynglŷn â'r mater diogelu hwn, ni waeth ble mae staff yn gweithio.

Yn ychwanegol, mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd â chartrefi plant ynghlwm a ble mae staff o'r cartrefi hyn hefyd yn cyflawni rolau gweithiwr cymorth dysgu i gefnogi dysgu disgyblion yn yr ystafell ddosbarth, byddai'r gofyniad i gofrestru gyda CGA yn sicrhau bod eglurder am natur ddeuol eu rôl. Yn ei dro, mae hyn yn debygol o'i gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ystyried yr agwedd hon ar eu rôl yn fwy strategol, a buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol priodol ar gyfer yr agwedd hon ar eu gwaith. Dros gyfnod, gallai fod gan hyn y potensial i godi safonau cymorth dysgu yn y lleoliadau hyn.

Cwestiwn 2 – A yw'r disgrifiad o 'waith penodedig' yn [rheoliad 17 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg \(Prif Swyddogaethau\) \(Cymru\) 2015](#) yn ddigon eang i gwmpasu rolau a chyfrifoldebau staff addysgu mewn ysgolion annibynnol?

Ydy	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydy	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno nad yw rôl staff addysgu yn wahanol iawn rhwng y sector a gynhelir a'r sector annibynnol, ac felly mae'r disgrifiad o 'waith penodedig' fel yr amlinellir yn y rheoliad uchod yn addas.

Cwestiwn 3 – Parthed y rhestr ganlynol o reolau, a oes yna rolau eraill o fewn ysgolion annibynnol a ddylai ddisgyn i'r categori athro ysgol?

- Staff addysgu amser llawn
- Staff addysgu rhan-amser
- Y rhai sy'n gyfrifol am arwain y dysgu yn yr ysgol, er enghraifft y pennaeth neu'r perchennog
- Staff cyflenwi – caffaelir trwy asiantaeth neu fel arall
- Staff addysgu peripatetig – er enghraifft, athrawon cerddoriaeth a chwaraeon
- Staff addysgu ymgynghorol sy'n treulio cyfran o'u hamser mewn rhinwedd addysgu, yn cynnwys cyswllt uniongyrchol heb oruchwyliaeth â dysgwyr
- Tiwtoriaid cartref sy'n cael eu cyflogi i addysgu dysgwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol yn rheolaidd
- Unrhyw aelodau staff eraill allai fod â mwy nag un rôl mewn ysgol, y mae un ohonynt yn cynnwys addysgu – er enghraifft rhiant yn y llety, cynghorydd gyrfaoedd, tiwtoriaid

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	-------------------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Er nad oes yna unrhyw rolau eraill sy'n ymwneud yn benodol ag ysgolion annibynnol, teimlwn y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r derminoleg a ddefnyddir. Yn benodol, efallai fod gan yr unigolyn sy'n 'gyfrifol am arwain y dysgu' mewn ysgol annibynnol ystod o deitlau, gan gynnwys pennaeth a warden. Yn ychwanegol, rhaid i'r diffiniad o 'arwain dysgu' fod yn glir, oherwydd mewn rhai ysgolion annibynnol, y perchennog fydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am arwain dysgu hefyd, ond mewn achosion eraill, mae'r perchennog yn berchen ar yr ysgol ond yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i arweinydd yr ysgol. Yn dibynnu ar eu rôl yn yr ysgol o ddydd i ddydd, bydd angen i berchnogion gael dealltwriaeth glir o b'un a yw'n ofynnol iddynt gofrestru gyda CGA.

Mewn ysgolion annibynnol, bydd y categori olaf uchod ble mae gan staff fwy nag un rôl, efallai, yn hynod bwysig oherwydd gallai staff addysgu gyflawni rolau gofal preswyl hefyd, yn ogystal â'u cyfrifoldebau addysgu.

Credwn y byddai'r cynigion yn cael eu cryfhau trwy gynnwys canllawiau clir y dylai pob aelod o staff sydd â chyfrifoldeb addysgu gofrestru gyda CGA. Dylai'r canllawiau hyn ei gwneud yn glir, er enghraifft, fod angen i staff gofrestru lle maent yn addysgu'n rheolaidd, gan gynnwys gwersi rheolaidd un i un neu grŵp bach i ddatblygu medrau disgyblion i ddysgu'n annibynnol. Gallai hyn gynnwys staff sy'n cael eu penodi i swyddi nad ydynt yn rhai addysgu, fel staff arlwyo neu staff cynnal a chadw, ond sydd, yn ddiweddarach, yn addysgu'n rheolaidd. Pan fydd staff nad ydynt yn addysgu yn darparu mewnbyn o bryd i'w gilydd, fel staff arlwyo sy'n darparu cyfle profiad gwaith, ni fyddai'n ofynnol iddynt gofrestru.

Cwestiwn 4 – A yw'r disgrifiad canlynol yn ddigon eang i gwmpasu holl rolau a chyfrifoldebau gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol?

Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol yw'r rhai sy'n cynorthwyo athrawon ysgol i:

- gynllunio a pharatoi gwersi a chysiau astudio ar gyfer dysgwyr
- cyflwyno gwersi i ddysgwyr (gan gynnwys trwy ddysgu o bell a thechnegau rhithwir)
- asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr
- adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr.

Ydy	✓	Nac ydy	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno bod y disgrifiad o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu yn ddigon eang i gwmpasu ysgolion annibynnol. Yn yr agweddau hyn, mae'r rôl yn aros yr un fath p'un a yw staff yn gweithio mewn ysgol a gynhelir neu mewn ysgol annibynnol.

Yn ychwanegol, mewn ysgolion arbennig annibynnol, gellir dadlau bod gweithwyr cymorth yn cael eu defnyddio i gefnogi anghenion iechyd neu anghenion meddygol disgyblion, neu i reoli ymddygiadau heriol o fewn yr ystafell ddosbarth yn hytrach na chefnogi dysgu yn bennaf. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried bod hyn yn wahaniaeth ystyrion. Credwn fod yr amgylchiadau hyn wedi'u cynnwys yn y disgrifiad uchod, ac yn yr ail bwynt bwled yn benodol, ond gellid cryfhau'r canllawiau trwy fwy o enghreifftiau o'r math hwn o gymorth.

Hefyd, gallai fod yn fuddiol egluro y byddai angen i weithwyr proffesiynol sydd wedi cofrestru â chyrff proffesiynol eraill sy'n cyflawni eu rôl broffesiynol yn yr ysgol gofrestru gyda CGA, er enghraifft therapyddion lleferydd ac iaith, ffisiotherapyddion, seicolegwyr, ac ati.

Cwestiwn 5 – A yw'r rhestr hon yn cwmpasu'r holl rolau o fewn ysgolion annibynnol y dylid eu cynnwys yn y categori cymorth dysgu?

- Cynorthwydd addysgu
- Cynorthwydd ystafell ddosbarth
- Cynorthwydd cymorth dysgu
- Cynorthwydd addysgu lefel uwch (CALU)
- Cynorthwydd anghenion arbennig / ychwanegol
- Cynorthwydd cymorth dwyieithog
- Cynorthwydd bugeiliol / lles
- Cynorthwydd cymorth
- Tiwtoriaid (preswyl a dibreswyl)
- Cynorthwywyr y blynyddoedd cynnar
- Hyfforddwyr
- Goruchwyliwr cyflenwi
- Technegwyr
- Hyfforddwyr dysgu

Ydy	✓	Nac ydy	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Er bod y rhestr uchod yn cynnwys y prif rolau cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol, rydym wedi nodi rôl ychwanegol yng nghwestiwn 6 y gellid ei hystyried hefyd.

Fel y nodwyd uchod, mewn ysgolion arbennig annibynnol, gellir dadlau bod gweithwyr cymorth yn cael eu defnyddio'n bennaf i gefnogi anghenion iechyd neu anghenion meddygol disgyblion, neu i reoli ymddygiadau heriol o fewn yr ystafell ddosbarth. Eto, gall fod yn fuddiol cynnwys y math hwn o gymorth yn eglur yn y rhestr uchod, efallai eglurhad o rôl cynorthwydd anghenion arbennig / ychwanegol. Bydd yn hynod bwysig sicrhau bod pob aelod o staff sy'n cyflawni

rolau cymorth dysgu wedi cofrestru gyda CGA, hyd yn oed os ydynt yn cyflawni rolau mewn darpariaeth gofal preswyl hefyd.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n meddwl bod yna grwpiau eraill o staff yn cael eu cyflogi mewn lleoliadau addysg annibynnol y dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru gyda CGA?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Yn ogystal â'r grwpiau staff a grybwyllir yng nghwestiwn 5, mae llawer o ysgolion annibynnol yn cyflogi cynorthwyr iaith i gefnogi dysgu disgyblion mewn ieithoedd tramor modern. Yn ychwanegol, caiff graddedigion sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd eu cyflogi'n aml, fel hyfforddwy'r chwaraeon, gan amlaf. Mae'r rhain yn aml yn benodiadau blwyddyn, ond byddai'n briodol eu cofrestru fel gweithwyr cymorth dysgu os ydynt yn rolau cyflogedig.

Mewn ysgolion â chyfran sylweddol o ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn aml, caiff staff therapiwtig eu cyflogi gan yr ysgol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae anghysondeb yn y gofyniad ar gyfer eu cofrestru. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i rai o'r gweithwyr hyn gofrestru gyda'u corff proffesiynol, ac maent yn cyflawni eu rôl broffesiynol yn yr ysgol fel therapydd lleferydd ac iaith neu seicolegydd, er enghraifft. Fodd bynnag, nid oes corff proffesiynol i weithwyr eraill sy'n darparu cymorth therapiwtig mewn meysydd fel cymorth ymddygiad neu awtistiaeth allu cofrestru ag ef. Felly, rydym yn cynnig y dylai fod gofyniad i **bob aelod** o staff therapiwtig gofrestru gyda chorff proffesiynol perthnasol. Os nad ydynt wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol arall, yna dylid eu cofrestru fel gweithwyr cymorth dysgu gyda CGA.

Cwestiwn 7 – Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau pellach ar ein cynigion ar gyfer gofyn i staff ysgolion annibynnol gofrestru.

Beth ydych chi'n meddwl am ein cynigion i newid rhai o'r gofynion ar gyfer gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid i gofrestru gyda CGA?

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno y dylid ehangu cofrestru i gynnwys yr holl weithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid cyflogedig ni waeth ym mha leoliad y maent yn gweithio?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno â'r cynnig y dylai pob gweithiwr ieuencid cyflogedig sy'n gymwys i'r lefelau cytûn ac yn gweithio yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuencid gofrestru, ni waeth ym mha leoliad y maent yn gweithio. Mae hyn yn bwysig am resymau diogelu ac ar gyfer datblygu a chydabod gwaith ieuencid fel proffesiwn addysg cydnabyddedig. (Gweler ein hateb i Gwestiwn 9 isod).

Hefyd, gall fod yn ofynnol i weithwyr ieuencid cymwys sy'n gweithio ar gyfer gwahanol ddisgyblaeth i addysg, fel gwasanaethau cymdeithasol neu waith chwarae, gofrestru gyda mwy nag un corff proffesiynol. Fodd bynnag, byddem yn argymhell y dylai fod yn ofynnol hefyd i'r holl weithwyr ieuencid cymwys, sy'n gweithio'n rhan-amser neu'n amser llawn mewn swydd gyflogedig fel gweithwyr ieuencid gofrestru gyda CGA.

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n meddwl y dylai myfyrwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster gwaith ieuencid neu gymorth ieuencid ar hyn o bryd gofrestru?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Gall gweithwyr ieuencid sydd eisoes yn meddu ar gymhwyster lefel 3 ac yn gweithio tuag at radd neu MA mewn gwaith ieuencid fod wedi cofrestru eisoes â CGA. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt fanteisio ar y pasbort dysgu proffesiynol lle gallant gofnodi eu DPP a chofnodi eu dadansoddiad o'u harferion myfyriol. Dylai hyn fod ar gael i bob myfyriwr sy'n dilyn cymhwyster gwaith ieuencid. Efallai y gellid ystyried categori aelodaeth gyswllt ar gyfer y rhai nad ydynt yn 'gymwys' i gofrestru eto, gyda statws cofrestru llawn yn cael ei ddyfarnu wedi iddynt ennill cymhwyster.

Byddai'r cynnig hwn yn fuddiol i fyfyrwyr sy'n gweithio tuag at gymwysterau gan nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer dysgu proffesiynol yn sicrhau bod gweithwyr ieuencid yn cael eu trin yr un fath â phroffesiynau addysg eraill. Mae gwaith ieuencid yn broffesiwn addysg sydd â set medrau gwaith ieuencid unigryw. Nid oes yna unrhyw drefniadau ymsefydlu y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer

gweithwyr ieuencid newydd gymhwyso a dim cynnig cenedlaethol o gyfleoedd dysgu proffesiynol pellach. Ar ôl cwblhau hyfforddiant, yn wahanol i athrawon newydd gymhwyso, nid yw'n ofynnol i weithwyr ieuencid gwblhau blwyddyn brawf gyda hawl i gymorth, hyfforddi a mentora a chyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus. Ar hyn o bryd, mae gweithwyr ieuencid yn destun yr un gofynion cofrestru ag athrawon ond heb fantais statws gweithiwr cymorth ieuencid cymwys sydd gyfwerth â Statws Athro Cymwys ar gyfer athrawon. Heb drefniadau tebyg i athrawon, efallai na fydd gweithwyr ieuencid bob amser yn cael eu hannog i barhau ar y daith ddysgu broffesiynol.

Cwestiwn 10 – Ydych chi'n meddwl y dylai pobl sy'n cael eu talu ac yn cyflwyno gwaith ieuencid, ond nad ydynt yn gymwys, gofrestru?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	-------------------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae 'gwaith ieuencid' yn fethodoleg gydnabyddedig ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc, sy'n cael ei hategu gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, cymwysterau proffesiynol a reoleiddir, ac sydd â sail foesebol ddiffiniedig. Mae gwaith ieuencid yn adeiladu ar sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda phobl ifanc lle caiff eu hanghenion eu rhoi yn gyntaf, heb ystyried a yw'r cysylltiadau â phobl ifanc yn wirfoddol neu'n orfodol. Diffinnir pobl ifanc fel y rhai rhwng 11 a 25 mlwydd oed.

Dylid ond cofrestru'r bobl y cyfeirir atynt uchod os ydynt yn cwblhau 'gwaith ieuencid' yn unol â'r diffiniad cytûn (gweler uchod) a'u bod yn gymwys i'r lefelau a gymeradwyir gan ETS. Dylai'r holl bobl sy'n cyflwyno 'gwaith ieuencid' cyflogedig gael eu hannog gan eu cyflogwr i hyfforddi i'r safon broffesiynol ofynnol ar gyfer gweithio'n annibynnol fel gweithiwr ieuencid (L3).

Mae cofrestru'r holl bobl sy'n cael eu talu i weithio gyda phobl ifanc yn ddymunol o safbwynt diogelu. Fodd bynnag, gallai cofrestru 'gweithwyr ieuencid' anghymwys niweidio uniondeb proffesiynol y proffesiwn.

Ateb posibl fyddai sefydlu cofrestr ar wahân ar gyfer gweithwyr anghymwys neu gofrestriad cyswllt ar gyfer y rhai sy'n gweithio tuag at gymwysterau.

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r rhestr o gymwysterau yn [Atodlen 1](#) ac [Atodlen 2](#) i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuencid, Gweithwyr Cymorth Ieuencid ac Ymarferwyr Dysgu yn y Gwaith) 2016 o'r Gorchymyn a'i dal yn rhywle arall?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Nid ydym mewn sefyllfa i roi sylwadau ar y manylion am yr holl gymwysterau gwaith ieuencid, yn enwedig rhai gwaddol a rhai gwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno bod y Dyfarniad Lefel 2 mewn egwyddorion gwaith ieuencid yn lefel ddigonol i'w gwneud yn ofynnol cofrestru gyda CGA.

Rydym yn cydnabod bod cymwysterau yn agored i'w newid a bod angen diweddarau'r rhestr yn rheolaidd. Credwn y byddai'n fuddiol dileu'r rhestr o gymwysterau o Orchymyn 2016. Gan fod y cymwysterau'n cael eu cymeradwyo gan ETS, byddai'n ymddangos yn rhesymol i'r corff hwn ddal y rhestr o gymwysterau. Fodd bynnag, rydym yn deall efallai na fydd hyn yn bosibl gan nad yw'r corff yn endid cyfreithiol. Dylid ystyried ymhellach ble y dylid dal y rhestr hon yn y dyfodol. Gallai Llywodraeth Cymru neu gorff cenedlaethol a sefydlwyd ar gyfer gwaith ieuencid wneud hyn.

Cwestiwn 12 – Ydych chi'n cytuno mai'r rhestr o gymwysterau yn Atodiad A yw'r rhestr gyfredol ar gyfer gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae'n ymddangos bod y rhestr yn Atodiad A yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae Estyn yn delio'n benodol â'r system addysg yng Nghymru. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd adroddiad thematig ar ansawdd cymwysterau gwaith ieuencid sydd ar gael yng Nghymru yn ystod 2019-2020.

[Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuencid – Model cynaliadwy i Gymru \(llyw.cymru\)](#)

Byddai'n fuddiol cyflwyno adolygiad cyfnodol a diweddarau'r rhestr o gymwysterau i sicrhau ei bod yn aros yn gyfredol.

Cwestiwn 13 – Ydych chi'n cytuno y dylid darparu gwybodaeth ychwanegol yng Ngorchymyn 2016 i egluro'r gwahaniaeth a ddisgwylir mewn lefelau cymhwyster rhwng gweithiwr cymorth ieuencid a gweithiwr ieuencid?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno y byddai mwy o eglurhad am y mater hwn yn fuddiol, i esbonio bod gweithiwr cymorth ieuencid yn gymwys i lefel 2 neu 3 tra bod gweithiwr ieuencid cwbl gymwys yn gymwys ar lefel 6 neu'n uwch.

Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn ein [hadroddiad thematig](#) (Estyn, 2020), mae dryswch ynglŷn â lefel gywir y cymhwyster ar gyfer gweithiwr cymorth ieuencid rhwng y proffesiwn a'r ddeddfwriaeth, ac mae hyn yn ddi-fudd, yn enwedig i'r sector gwirfoddol. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod y lefel ar gyfer cofrestru fel lefel 2, ond mae ETS a'r Cydgyngor Trafod Telerau yn cydnabod lefel 3 yn unig fel y cymhwyster proffesiynol i ymarfer heb oruchwyliaeth.

Cwestiwn 14 – Rhannwch gyda ni unrhyw feddyliau sydd gennych, efallai, am ein gwaith yn y dyfodol ar wirfoddolwyr yn y sector gwaith ieuencid.

Mae hyn yn dibynnu ar sut y diffinnir y 'sector gwaith ieuencid'. Teimlwn y dylid annog yr holl wirfoddolwyr yn y sector gwaith ieuencid a ariennir yn gyhoeddus i ymgymryd ag isafswm lefel o hyfforddiant a gynnabyddir yn genedlaethol neu o leiaf cyfnod sefydlu i waith ieuencid. Ni ddylid cynllunio hyn i atal pobl ond i sicrhau bod safonau gwaith gofynnol gyda phobl ifanc yn cael eu cadw.

At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r cynnig i beidio â'i gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr gofrestru gyda CGA. Dylai unrhyw waith ar gofrestrriad posibl gwirfoddolwyr o ran darparu gwaith ieuencid ystyried goblygiadau i rolau gwirfoddoli ar draws darpariaeth addysg a hyfforddiant.

Cwestiwn 15 – Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau pellach ar ein cynigion ar gyfer newid gofynion cofrestru gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid.

Byddem hefyd yn argymhell y dylid ystyried aileniwi'r term 'gweithiwr cymorth ieuencid' gan ei fod yn awgrymu gormod o bwyslais ar fodel cymorth diffygiol yn hytrach na sefyllfa sy'n adlewyrchu egwyddorion gwaith ieuencid ac yn galluogi grymuso pobl ifanc. Byddai'r term 'gweithiwr cymorth ieuencid' yn cadw geiriad tebyg ond o bosibl yn osgoi'r awgrym camarweiniol hwn.

Beth ydych chi'n meddwl am ein cynigion i newid y gofynion ar gyfer staff sy'n gweithio mewn addysg ôl-16 i gofrestru gyda CGA?

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr dysgu oedolion yn y gymuned, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi trwy sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, gofrestru gyda CGA?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno y dylai staff a gyflogir gan awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg bellach sy'n addysgu yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned gofrestru gyda CGA. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr ymarferwyr hyn yn debyg i ymarferwyr eraill sy'n addysgu yn y sector ôl-orfodol y mae'n ofynnol iddynt gofrestru ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, caiff cyfran sylweddol o staff yn y sector hwn eu cyflogi ar sail contractau fesul awr neu gcontractau rhan-amser, neu gyflwyno darpariaeth arbenigol mewn meysydd lle gallai fod yna garfan gyfyngedig o staff posibl. Rhaid i'r amodau a'r ffi cofrestru ystyried hyn, a pheidio â rhwystro staff sydd ond yn addysgu am ychydig oriau'r wythnos neu'n addysgu darpariaeth arbenigol.

Cwestiwn 17 – Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i'r holl benaethiaid ac uwch arweinwyr, gan gynnwys prif swyddogion gweithredol, mewn sefydliadau addysg bellach a dysgu yn y gwaith, gofrestru gyda CGA, hyd yn oed os nad ydynt yn cyflwyno unrhyw addysgu uniongyrchol?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cefnogi bwriad y newid hwn i arwain modelau rheoleiddio tebyg yn y sector ôl-16 ac mewn sectorau eraill. Fodd bynnag, oherwydd yr amrywiaeth mewn rolau arwain yn y sectorau AB a dysgu yn y gwaith, oni bai fod y gofynion cofrestru yn cael eu llunio'n glir iawn, mae perygl iddynt gael eu dirnad fel rhai mympwyol a gallai fod yn ofynnol cofrestru pobl mewn rolau sydd ag ychydig o ran mewn rôl addysgu sefydliad, os o gwbl, fel rheolwyr ystadau neu adnoddau dynol.

Efallai na fydd gan uwch arweinwyr yn y sector AB a'r sector dysgu yn y gwaith gefndir addysgu neu gymhwyster addysgu o reidrwydd, nac unrhyw gyfrifoldeb uniongyrchol am addysgu a dysgu yn eu rôl. Er enghraifft, gellir cyflogi uwch arweinwyr (er enghraifft cyfarwyddwyr ac is-benaethiaid) ym maes cyllid, gwasanaethau corfforaethol neu rolau rheoli ystadau, gydag ychydig iawn o gysylltiad ag elfen addysgu, hyfforddi a dysgu gwaith y sefydliad.

Yn aml, mae gan sefydliadau mawr, fel sefydliadau addysg bellach, strwythur 'grŵp', gyda phrif weithredwr yn arweinydd haen 1, penaeithiaid, dirprwy

benaethiaid neu is-benaethiaid yn arweinwyr haen 2, a chyfarwyddwyr yn arweinwyr haen 3. Yn gyffredinol, caiff pob un o'r rhain eu hystyried yn rolau uwch arweinyddiaeth. Yn aml, mae gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith strwythurau neu bartneriaethau consortiwm gydag is-gontractwyr. Mae sefydliadau'n defnyddio amrywiaeth o deitlau swyddi ar gyfer y rolau hyn. Er mwyn cyflawni nodau'r newid hwn, byddai angen llunio'r gofynion cofrestru yn ofalus i gynnwys arweinydd yr addysg a/neu'r hyfforddiant yn y darparwr (i fod gyfwerth ag arweinwyr mewn ysgolion) ond osgoi cynnwys pobl sydd ag ychydig o gyfrifoldeb uniongyrchol, os o gwbl, ar gyfer cyflawni rôl addysgu neu hyfforddi sefydliad.

Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r esemptiad sydd wedi'i gynnwys yn rheoliad 19(2)(a) [Rheoliadau Cynqor y Gweithlu Addysg \(Prif Swyddogaethau\) \(Cymru\) 2015](#), sy'n golygu nad yw'r gofyniad i gofrestru yn berthnasol i unigolyn sy'n 'addysgu addysg uwch mewn sefydliad addysg bellach, neu ar ei ran'?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn ar y sail fod staff addysgu mewn sefydliadau addysg bellach yn cael eu cyflogi ar gontract cyffredin.

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i'r holl ymarferwyr dysgu yn y gwaith a gyflogir trwy raglenni a ariennir yn gyhoeddus gofrestru gyda CGA?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn ar sail ei fwriad i broffesiynoli'r gweithlu dysgu yn y gwaith ymhellach a chael gwared ar anghysondebau yn y gofynion ar gyfer cofrestru.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn C16 ynghylch staff mewn darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, gallai fod nifer o staff yn y sector hwn sy'n cael eu cyflogi ar gontractau rhan-amser neu'n cyflwyno hyfforddiant arbenigol am ychydig oriau yn unig. Rhaid i'r amodau a'r ffi cofrestru ystyried hyn a pheidio â bod yn rhwystr i'r staff hyn. Er enghraifft, efallai bydd goblygiadau ariannol i aseswyr neu hyfforddwyr mewn sectorau fel iechyd a gofal cymdeithasol fyddai â chofrestriad

deuol ar gyfer eu harbenigedd sector a CGA ar gyfer eu hymrwymiad addysgu a hyfforddi.

Cwestiwn 20 – Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau pellach ar ein cynigion i newid y gofynion ar gyfer cofrestru staff mewn addysg ôl-16.

Rydym yn cefnogi'r cynigion ar gyfer newid y gofynion i gynnwys ymarferwyr mewn sefydliadau AB arbenigol i gofrestru gyda CGA ar sail cysondeb a thegwch gyda staff addysgu mewn sefydliadau AB. Rydym yn cydnabod y bydd ystyriaethau o ran costau i'r colegau hyn a allai fod yn rhwystr rhag cyflogaeth. Fodd bynnag, ar ôl pwysu a mesur, rydym yn ystyried bod manteision y cynnig hwn yn gorbwysu'r rhain.

Mae'n bwysig fod y canllawiau yn nodi'n glir y materion a amlygwyd eisoes mewn ymatebion cynharach ynglŷn â staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol (gweler ymatebion i gwestiynau 1-6 uchod), yn enwedig lle mae ysgolion yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn bennaf. Er enghraifft, y sefyllfa lle mae colegau arbenigol yn cyflogi'n rheolaidd staff sy'n gweithio yn y lleoliad preswyl i gynorthwyo dysgwyr yn eu sesiynau fel aelod *de facto* o'r tîm addysg, neu ble gallai fod gan staff fwy nag un rôl, fel arall.

Beth ydych chi'n meddwl am wirfoddolwyr yn gweithio gyda phobl ifanc?

Cwestiwn 21 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i beidio â'i gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc gofrestru gyda CGA?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cefnogi'r cynnig i beidio â'i gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc gofrestru gyda CGA am y rhesymau a roddir ym mharagraffau 58-62 y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 22 – Hoffem wybod beth yw eich barn ar yr effeithiau y byddai ein cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Gallai cofrestrriad proffesiynol ar draws mwy o sectorau ddarparu gwybodaeth well am gyfran y gweithlu addysg sy'n gallu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hyn effeithio'n gadarnhaol ar waith i gynyddu maint y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn 23 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 24 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych aros yn ddiennw, ticiwch yma: